# Cod Ymarfer
# Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol
# (Etholiadau'r Senedd)
# 2025

**Mae'r Cod hwn:**

- **i'w adnabod fel Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025**
- **yn dod i rym ar (add date)**

# Ynglŷn â'r cod

## Cefndir

1.1 Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau **pleidiau gwleidyddol** ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 20(7)(a) o Atodlen 7 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ('Gorchymyn 2025')

1.2 Paratowyd Cod Ymarfer drafft gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 20(1) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 ac yn dilyn ymgynghori â phobl a chyrff â diddordeb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd, cyflwynwyd y Cod Ymarfer i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o dan baragraff 20(2) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025. Cymeradwywyd y drafft gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Senedd o dan baragraff 20(4) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

## Diffiniadau

1.3 Yn y Cod hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Ystyr '**swm priodol**' yw swm gwariant ymgyrch a bennir yn unol ag adran 73(2) o PPERA.

Ystyr '**gwariant ymgyrch**' yw'r gwariant a bennir yn unol ag adran 72(2) o PPERA.

Ystyr '**ymgeisydd**' yw ymgeisydd unigol mewn etholiad etholaethol i'r Senedd sy'n rhywun heblaw ymgeisydd rhestr plaid, fel y'i diffinnir gan erthygl 2(1) o Orchymyn 2025.

Mae i'r gair '**cost**' ei ystyr arferol o dreuliau eitem, neu'r treuliau sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y 'swm priodol' i'w drin fel swm a yswyddir gan y blaid o dan y gyfraith ar wariant tybiannol.

Ystyr '**ffurflen wariant'** neu '**ffurflen**' yw ffurflen wariant plaid wleidyddol sy'n ofynnol o dan adran 80 o PPERA.

Ystyr '**eitem**' yw rhywbeth a allai fod yn destun gwariant. Mae'n cynnwys gwasanaethau a gweithgareddau yn ogystal â gwrthrychau.

Ystyr '**gwariant tybiannol**' yw gwariant ymgyrch yr ystyrir a ysgwyddir pan gaiff mangreoedd, gwasanaethau neu gyfleusterau eu darparu am ddim neu am bris gostyngol ac y mae'r blaid neu rywun ar ran y blaid yn eu defnyddio yn unol ag adran 73 o PPERA.

Ystyr '**rhestr plaid**' yw rhestr o ddim mwy nag wyth ymgeisydd plaid (ond gallai fod yn rhestr o un ymgeisydd yn unig) i fod yn aelodau o'r Senedd mewn etholaeth Senedd.

Ystyr '**plaid wleidyddol'** yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA.

Ystyr '**PPERA**' yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ystyr '**cyfnod a reoleiddir**' yw'r 'cyfnod perthnasol' ar gyfer etholiad fel y'i nodir (*'relevant period')* yn Atodlen 9 i PPERA

Ystyr '**etholaeth Senedd'** yw ardal a bennir yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae '**terfyn gwariant**' yn cyfeirio at yr uchafswm o arian y gall plaid wleidyddol ei wario mewn etholiad a gyfrifir gan ddefnyddio'r symiau a nodwyd yn Atodlen 9 i PPERA.

## Diben y Cod hwn

1.4 Mae'r Cod hwn yn rhoi arweiniad ynghylch beth sydd wedi'i gynnwys a beth sydd heb ei gynnwys yng nghwmpas paragraffau 1 a 2 Rhan 1 Atodlen 8 i PPERA.

1.5 Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i ddiffiniad 'gwariant ymgyrch' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae gofyn i blaid wleidyddol adrodd amdanynt wrth y Comisiwn Etholiadol.

1.6 Mae paragraff 1 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan ysgwyddir at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

## Pa etholiadau mae'r Cod hwn yn eu cwmpasu?

1.7 Mae'r Cod hwn yn berthnasol ar gyfer etholiadau i Senedd Cymru.

1.8 Os bydd cyfnod a reoleiddir cyfunol ar waith o dan Ran 3 o Atodlen 9 i PPERA, rheolau etholiadau'r DU sy'n berthnasol i rai etholiadau a gynhelir yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fydd hynny'n berthnasol i etholiad i Senedd Cymru, ni fydd y Cod hwn yn berthnasol.

## I bwy mae'r Cod hwn yn berthnasol?

1.9 Bydd y Cod hwn yn berthnasol i bob gwariant ymgyrch (yn amodol ar yr eithriadau a nodir isod) gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd ag ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr plaid yn etholiad y Senedd. Bydd unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â hyrwyddo un ymgeisydd, neu bob un, sydd ar y rhestr honno, neu'r blaid ei hun, yn dod yng nghwmpas y Cod hwn.

## Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol

1.10 Mae'r Cod hwn yn ffurfio canllawiau statudol. Mae'r Cod hwn yn wahanol i fathau eraill o ganllawiau y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu cyhoeddi oherwydd ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Senedd.

1.11 Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y rheolau ar gyfer etholiadau.

1.12 Mae'r gyfraith ar wariant gan bleidiau gwleidyddol wedi'i nodi yn PPERA. Fel cyd-destun, mae trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol yn PPERA wedi'i nodi isod.

1.13 Dylech gyfeirio at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol i gael gwybodaeth benodol am y rheolau ar gyfer pob etholiad. Mae canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch pa etholiadau a gynhelir a pha reolau sy'n berthnasol ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiad yn y cyfnod cyn etholiad.

## Beth yw canlyniadau torri'r Cod hwn?

1.14 Pan nad yw swyddog plaid yn dilyn y Cod hwn, mae trysorydd y blaid, neu swyddog perthnasol arall, yn debygol o fod yn torri'r gofynion statudol mewn perthynas â gwariant ymgyrch, er enghraifft y gofyniad statudol i gyflwyno ffurflen gyflawn a chywir. Gallai achosion o dorri'r Cod hwn hefyd arwain at ddod i'r casgliad bod trysorydd plaid wedi gwneud datganiad ffug am y ffurflen gan wybod ei fod yn ffug neu'n ddi-hid. Gallai cyflawni trosedd arwain at osod cosbau sifil neu erlyniad.

1.15 Mae adran 79(3) o PPERA yn darparu ei bod yn amddiffyniad i unrhyw unigolyn neu blaid gofrestredig sydd wedi'u cyhuddo o'r drosedd o fynd tu hwnt i derfyn gwariant ymgyrch (o dan adran 79(2)) o PPERA) ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Cod hwn wrth bennu eitemau a symiau gwariant ymgyrch i'w cyflwyno yn y ffurflen wariant ymgyrch berthnasol o dan adran 80 o PPERA, ac na fyddent wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn hwnnw ar sail yr eitemau a'r symiau a nodwyd yn y ffurflen honno.

## Y fframwaith cyfreithiol yn PPERA ar gyfer gwariant pleidiau gwleidyddol

### Cofrestru pleidiau gwleidyddol

1.16 Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol fod wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol i ymgeiswyr gael sefyll gan ddefnyddio marciau adnabod y blaid mewn etholiadau perthnasol.

### Cyfyngiadau gwario a chyfnodau a reoleiddir

1.17 Bydd y gyfraith ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol yn berthnasol yn ystod y cyfnod a nodwyd yn Atodlen 9 i PPERA. Mae Atodlen 9 i PPERA hefyd yn nodi'r cyfyngiadau gwario.

### Beth sy'n cyfrif fel gwariant pleidiau gwleidyddol?

1.18 Caiff gwariant pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau ei lywodraethu gan Ran 5 o PPERA.

1.19 Mae adran 72(2) o PPERA yn diffinio 'gwariant ymgyrch' mewn perthynas â phlaid gofrestredig fel '*expenses incurred by or on behalf of the party which are expenses falling within Part I of Schedule 8 and so incurred for election purposes.*'

1.20 Fel y nodwyd uchod, bydd y gyfraith yn y Cod hwn yn berthnasol i bob gwariant sy'n gysylltiedig â hyrwyddo unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll ar restr plaid ar gyfer plaid gofrestredig, neu'r blaid ei hun.

1.21 Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i PPERA yn amlinellu'r treuliau sy'n gymwys pan ysgwyddir 'at ddibenion etholiad'. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru'r materion sy'n gymwys. Mae paragraff 2 o Atodlen 8 yn rhestru'r eithriadau, gan gynnwys eithriad cyffredinol ar gyfer treuliau rhesymol a ysgwyddir y gellir eu priodoli'n rhesymol i ddiogelu unigolion neu eiddo.

**Treuliau sydd wedi'u heithrio**

1.22 Mae paragraff 2 o Atodlen 8 i PPERA yn nodi rhestr o faterion sydd yn '*excluded*' o fod yn '*campaign expenditure*' o fewn ystyr adran 72 o PPERA.

1.23 Mae paragraff 2(1)(f)(i) o Atodlen [1] yn eithrio unrhyw wariant a ysgwyddir mewn perthynas ag unrhyw fater y gellir ei briodoli'n rhesymol i anabledd ymgeisydd.

1.24 Mae paragraff 2(1)(f)(ii)[2] o Atodlen 8 yn eithrio unrhyw wariant a ysgwyddir mewn perthynas â, neu o ganlyniad i, gyfieithu rhywbeth o Gymraeg i Saesneg neu o Saesneg i Gymraeg.

1.25 Mae paragraff 2(1)(ea)[3] o Atodlen 8 yn eithrio unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir y gellir eu priodoli'n rhesymol i ddiogelu unigolion neu eiddo.

**Dibenion etholiad**

1.26 Diffinnir '*for election purposes*' yn adran 72(4) o PPERA. Mae'n golygu:

> *for the purpose of or in connection with—*
>
> *(a) promoting or procuring electoral success for the party at any relevant election, that is to say, the return at any such election of candidates—*
>
> *(i) standing in the name of the party, or*

[1] Mewnosodwyd gan erthygl 7 Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020
[2] Mewnosodwyd gan erthygl 7 Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020
[3] Diwygiwyd gan reoliad 3(1) o Reoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrchu) (Cymru) 2025

*(ii) included in a list of candidates submitted by the party in connection with the election; or*

*(b) otherwise enhancing the standing—*

*(i) of the party, or*

*(ii) of any such candidates,*

*with the electorate in connection with future relevant elections (whether imminent or otherwise).*

### Gwariant tybiannol

1.27 Mae 'gwariant tybiannol ymgyrch' yn cyfrif tuag at derfynau gwario'r blaid. O dan adran 73 o PPERA, mae gwariant tybiannol ymgyrch yn codi pan fodlonir yr amodau canlynol:

Yr amod cyntaf yw:

- bod yr eiddo'n cael ei drosglwyddo i'r blaid am ddim neu gyda gostyngiad o fwy na 10 y cant o werth marchnadol yr eiddo, neu
- bod yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau yn cael eu darparu i'r blaid am ddim neu gyda gostyngiad o dros 10 y cant o'r gyfradd fasnachol

Yr ail amod yw:

- bod yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau yn cael eu defnyddio gan neu ar ran y blaid mewn amgylchiadau sy'n golygu, pe ysgwyddir unrhyw ran o'r treuliau (neu os ysgwyddir mewn gwirionedd) gan neu ar ran y blaid mewn perthynas â'r defnydd hwnnw, y byddent (neu eu bod) yn wariant ymgyrchu - h.y. o fewn y categorïau a restrir ym mharagraff 1 ac nad ydynt wedi'u heithrio gan baragraff 2, Atodlen 8.

  Yn y cyd-destun hwn, ni chaiff eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau ond eu defnyddio ar ran y blaid os yw'r defnydd hwnnw wedi'i gyfarwyddo, ei awdurdodi neu ei annog gan y blaid, neu'r trysorydd neu'r dirprwy drysorydd a benodwyd o dan adran 74 PPERA.

1.28 Pan fodlonir yr amodau uchod, ystyrir bod 'swm priodol' yn wariant ymgyrchu a ysgwyddir gan y blaid a rhaid ei ddatgan fel gwariant ymgyrchu ar ffurflen y blaid. Mae'r gyfraith ar roddion hefyd yn berthnasol i'r rhodd gysylltiedig i'r blaid.

1.29 Y swm priodol yw'r gyfran y gellir ei phriodoli'n rhesymol i ddefnydd yr eitem, o un ai:

- ei gwerth marchnadol (pan gaiff ei throsglwyddo am ddim), neu

- werth y gostyngiad

## Gostyngiadau

### Gostyngiadau anfasnachol

1.30 Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i blaid neu ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraddau arbennig nad ydynt ar gael ar y farchnad agored.

1.31 Pan fydd hyn yn digwydd, bydd gwerth masnachol llawn yr eitem neu'r gwasanaeth yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant ac mae'n rhaid adrodd amdano yn y ffurflen wariant.

### Gostyngiadau masnachol

1.32 Gostyngiadau masnachol yw'r gostyngiadau sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau am archebion swmpus neu ostyngiadau tymhorol. Nid yw'r rhain yn cael eu trin fel gwariant tybiannol.

### Adrodd

1.33 O dan adrannau 80 ac 82 o PPERA, mae gofyn i bleidiau gwleidyddol gyflwyno ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol ar ôl etholiad. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yn dibynnu ar y swm mae'r blaid wedi'i wario. Un o'r prif ofynion o dan adran 80(3)(a) PPERA yw bod yn rhaid i'r ffurflen gynnwys:

> *a statement of all payments made in respect of campaign expenditure incurred by or on behalf of the party during the relevant campaign period in the relevant part or parts of the United Kingdom.*

1.34 Trysorydd y blaid sy'n gyfrifol am gwblhau'r ffurflen. Pan fo gan blaid swyddog ymgyrchu wedi'i benodi o dan adran 25 o PPERA, nhw sy'n gyfrifol am hyn.

1.35 Mae'n rhaid i drysorydd y blaid lofnodi datganiad bod y ffurflen, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, yn gyflawn ac yn gywir. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug gan wybod ei fod yn ffug neu'n ddi-hid o dan adran 83 o PPERA.

# Canllawiau cyffredinol ar y mathau o dreuliau sy'n gymwys fel gwariant ymgyrchu pan ysgwyddir at ddibenion etholiad

## Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol

2.1 Mae'n rhaid adrodd cost lawn eitem sy'n bodloni'r meini prawf arferol yn y ffurflen yn yr etholiad y defnyddir yr eitem ynddo gyntaf. Ni chaiff cost eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad gan blaid wleidyddol ei dosrannu neu ei disgowntio gan y gallent neu gan y byddant yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad(au) dilynol.

2.2 Bydd cost eitemau a allai neu a fydd yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad cyntaf y byddant yn cael eu defnyddio. Pan ddefnyddir eitem at ddibenion heblaw am ddefnydd mewn etholiad, rhaid adrodd cost y gyfran a ddefnyddir ar gyfer yr etholiad.

2.3 Yn achos eitemau:

y talwyd amdanynt yn llawn (perchnogaeth nid llogi)
a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol
yr adroddwyd amdanynt yn llawn yn ffurflen wariant y blaid mewn etholiad blaenorol, a
nad ydynt wedi'u newid mewn unrhyw ffordd

nid oes rhaid adrodd am eu pris prynu yn y ffurflen wariant ar gyfer yr un blaid wleidyddol mewn etholiad dilynol, ac nid ydynt yn cyfrif tuag at derfyn gwariant mewn etholiadau dilynol o'r fath.

2.4 Serch hynny, yn achos yr holl gostau a ysgwyddir wrth hwyluso ailddefnyddio eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- glanhau
- newid a/neu ychwanegu
- cynnal a chadw
- ailddatblygu

rhaid adrodd amdanynt ar ffurflen yr etholiad dilynol lle defnyddir yr eitemau unwaith eto.

2.5 Mae'r costau a ysgwyddir wrth hwyluso'r ailddefnydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad dilynol yr ailddefnyddir yr eitem ynddo.

- Mae plaid yn prynu cyfres o fyrddau Correx. Mae’r blaid yn eu defnyddio yn etholiad y Senedd ac yn adrodd amdanynt yn ei ffurflen ar gyfer yr etholiad hwnnw. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae’r blaid yn defnyddio’r byrddau Correx unwaith eto. Cyn eu defnyddio, maen nhw’n trefnu eu glanhau a, lle bo angen, eu disodli. Yn ei ffurflen, mae’r blaid yn cynnwys cost glanhau a disodli’r byrddau Correx.

- Mae plaid yn prynu meddalwedd mae’n ei defnyddio i dargedu pleidleiswyr. Mae’r blaid yn defnyddio’r feddalwedd yn etholiad y Senedd. Mae’r blaid yn adrodd amdani yn ei ffurflen yn yr etholiad hwnnw. Yn y cyfnod rhwng yr etholiadau, mae’r blaid yn diweddaru ac yn cynnal y system. Yn yr etholiad nesaf lle caiff y system ei defnyddio, mae’r blaid yn adrodd cost diweddaru a chynnal y system.

- Mae plaid yn prynu meddalwedd i ddal a phrosesu gwybodaeth am bleidleiswyr. Mae’r wybodaeth yn cael ei chasglu o’r gofrestr etholiadol y mae gan y blaid hawl i gopi ohoni. Nid oes angen adrodd am y gost o gael mynediad at y data hwnnw.

  Defnyddiodd y blaid y feddalwedd hon at ddibenion eraill hefyd, fel cadw data aelodau. Mae’r wybodaeth yn cael ei diweddaru’n fewnol drwy ganfasio o dŷ i dŷ. Nid oes costau’n rhan o’r canfasio gan mai gwirfoddolwyr sy’n gwneud hynny.

  Cynhelir etholiad y Senedd. Mae’r blaid yn dosrannu cost y feddalwedd ar sail ei defnydd. Nid yw’r gost gyfan ar gyfer etholiad y blaid. Mae’r blaid yn adrodd yn ffurflen yr etholiad hwnnw beth yw cyfran cost y feddalwedd sy’n berthnasol i’r etholiad. Mewn etholiadau dilynol, dim ond ar gost cynnal a chadw’r feddalwedd a’r gronfa ddata mae’r blaid yn adrodd.

## Eitemau heb eu defnyddio o gwbl

2.6 Ni chaiff eitemau y talwyd amdanynt ond nas defnyddir mewn etholiad eu hystyried fel eitemau a ysgwyddir at ddibenion etholiad, ac nid oes angen adrodd amdanynt yn y ffurflen.

## Treuliau a ysgwyddir cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir

2.7 Mae'n rhaid adrodd am dreuliau a ysgwyddir cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir, ar eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, yn y ffurflen. Felly, mae cost eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir ond a brynwyd cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid.

## TAW

2.8 Mae'n rhaid i'r treuliau yr adroddir amdanynt gynnwys TAW pan fo'n berthnasol, hyd yn oed lle gellir adennill TAW.

2.9 Os caiff TAW ei godi ar eitem, mae'r swm TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

## Gorbenion a chostau cysylltiedig

2.10 Pan ysgwyddir gorbenion a chostau cysylltiedig, y swm sy'n cyfrif fel gwariant ymgyrch yw'r gyfran sy'n adlewyrchu'n rhesymol y defnydd yn ystod yr ymgyrch. Dyna'r gyfran y mae'n rhaid ei chynnwys ar y ffurflen ac sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

2.11 Mae hyn yn berthnasol i eitemau fel:

- gofod swyddfa
- ardrethi busnes
- biliau trydan
- darparu llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd
- ffonau symudol
- darparu offer swyddfa o unrhyw fath

2.12 Yn gyffredinol, y gyfran sy'n adlewyrchiad rhesymol o ddefnydd yw'r swm a ysgwyddir sy'n mynd y tu hwnt i'r costau arferol mewn cyfnod penodol.

> Mae plaid yn talu swm safonol y mis am drydan. Yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, mae'n mynd i gostau uwch na fyddai'n eu talu fel arfer. Y swm ychwanegol yw'r swm y mae'n rhaid adrodd amdano ar y ffurflen.

2.13 Mae unrhyw gostau cysylltiedig eraill hefyd yn cyfrif fel gwariant ymgyrch, felly mae'n rhaid adrodd amdanynt a'u cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

## Eitemau sydd wedi'u heithrio

2.14 Nid yw cost dŵr, nwy, treth gyngor na gofal plant yn dreuliau sy’n dod o fewn cwmpas Rhan 1 o Atodlen 8 i PPERA. Nid ystyrir eu bod wedi’u cysylltu’n ddigon agos â’r materion a restrir yno. Nid oes angen adrodd amdanynt.

# Atodlen 8, paragraff 1 (PPERA)

## Nodiadau cyffredinol

### Nid yw'r Cod hwn yn hollgynhwysol

3.1 Mae'r rhan hon o'r Cod yn nodi rhestrau nad ydynt yn hollgynhwysol o faterion sy'n berthnasol at ddibenion pob mater yn Atodlen 8, paragraff 1. Dylid felly adrodd amdanynt mewn ffurflen wariant os ysgwyddir gwariant cysylltiedig gan neu ar ran plaid at ddibenion etholiad.

3.2 Fel y nodir uchod, yn amodol ar yr eithriadau, bydd gwariant sy'n gysylltiedig â hyrwyddo ymgeisydd sydd ar restr plaid gofrestredig neu'r blaid ei hun wedi'i gwmpasu yn y Cod hwn.

### Gwariant tybiannol

3.3 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i wariant tybiannol ar ran plaid wleidyddol yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i wariant a ysgwyddir gan blaid wleidyddol, oni pennir yn wahanol.

### Costau sydd wedi'u heithrio

3.4 Mae'r rhan hon o'r Cod yn egluro paragraff 1 Atodlen 8 PPERA. Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth ynddi yn addasu'r rhestr o eithriadau a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 8 i PPERA, sydd wedi'i hatgynhyrchu isod.

*(1) Nothing in paragraph 1 shall be taken as extending to—*

*(a) any expenses in respect of newsletters or similar publications issued by or on behalf of the party with a view to giving electors in a particular electoral area information about the opinions or activities of, or other personal information relating to, their elected representatives or existing or prospective candidates;*

*(b) any expenses incurred in respect of unsolicited material addressed to party members;*

*(c) any expenses in respect of any property, services or facilities so far as those expenses fall to be met out of public funds;*

*(d) any expenses incurred in respect of the remuneration or allowances payable to any member of the staff (whether permanent or otherwise) of the party;*

*(e) any expenses incurred in respect of an individual by way of travelling expenses (by any means of transport) or in providing for his accommodation or*

*other personal needs to the extent that the expenses are paid by the individual from his own resources and are not reimbursed to him; or*

*(ea) in relation to an election for the purposes of which a limit is imposed by paragraph 3, 6, 7, 9, 10 or 11 of Schedule 9 (limits for periods relating to parliamentary general elections , general elections to Senedd Cymru, or general elections to the Northern Ireland Assembly), reasonable expenses incurred that are reasonably attributable to the protection of persons or property;*

*(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:*

*(i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate's disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and*

*(ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.*

*(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) "disability", has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010*

# Atodlen 8, paragraff 1(1)

*Party political broadcasts.*

*Expenses in respect of such broadcasts include agency fees, design costs and other costs in connection with preparing or producing such broadcasts.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

4.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

i baratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio cynnwys neu ddarlledu'r cynnwys.

**Gorbenion a chostau cysylltiedig**

4.2 Mae'n cynnwys cost unrhyw feddalwedd o unrhyw fath a ddefnyddir ar unrhyw ddyfais ar gyfer dylunio a llunio deunydd yn fewnol.

4.3 Er enghraifft, ffi drwyddedu ar gyfer rhaglen feddalwedd i'w defnyddio i ddylunio cynnwys darlledu.

4.4 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer i baratoi, llunio, neu hwyluso'r gwaith o lunio neu ddarlledu'r cynnwys.

4.5 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

mangreoedd swyddfa
ardrethi busnes
trydan
rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â pharatoi, llunio, hwyluso'r gwaith o lunio a/neu ddarlledu'r cynnwys.

4.6 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r darllediad ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

# Atodlen 8, paragraff 1(2)

*Advertising of any nature (whatever the medium used).*

*Expenses in respect of such advertising include agency fees, design costs and other costs in connection with preparing, producing, distributing or otherwise disseminating such advertising or anything incorporating such advertising and intended to be distributed for the purpose of disseminating it.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

5.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir:

- i baratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio deunydd hysbysebu
- i ledaenu deunydd hysbysebu drwy ddosbarthu neu fel arall

5.2 Er enghraifft, llogi ffotograffydd a mangreoedd i greu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysebu.

**Costau penodol sy'n gysylltiedig â llunio neu ddosbarthu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

5.3 Mae'n cynnwys cost unrhyw feddalwedd, o unrhyw fath, i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais:

i ddylunio a llunio deunydd hysbysebu yn fewnol
i ddosbarthu neu hwyluso'r gwaith o ddosbarthu deunydd hysbysebu

p'un a gaiff y deunydd hwnnw ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig, neu fel arall.

5.4 Er enghraifft, ffi drwyddedu ar gyfer rhaglen feddalwedd i'w defnyddio ar ddyfais.

5.5 Mae'n cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir:

- i baratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio deunydd hysbysebu digidol neu electronig
- i ddosbarthu neu hwyluso'r gwaith o ddosbarthu'r deunydd hysbysebu hwnnw mewn unrhyw fodd

gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i ymdrech i gynyddu amlygrwydd cynnwys mewn unrhyw fodd.

5.6 Er enghraifft, prynu safle amlycach ar dudalen peiriant chwilio.

5.7 Mae'n cynnwys cost paratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio deunydd hysbysebu ar gyfer:

- ei lawrlwytho a'i ddefnyddio gan eraill
- ei rannu a hyrwyddo'r blaid drwy unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol

5.8 Er enghraifft, cost llunio deunydd hysbysebu sy'n hyrwyddo'r blaid a gaiff ei rannu ar dudalen ar sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol sy'n annog dilynwyr i'w rannu.

5.9 Mae'n cynnwys cost defnyddio, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sydd:

- yn hwyluso'r gwaith o ddosbarthu neu ledaenu deunydd hysbysebu mewn unrhyw fodd
- yn hyrwyddo neu'n cynyddu amlygrwydd deunydd hysbysebu mewn unrhyw fodd

5.10 Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel pe bai wedi'i weld a'i gymeradwyo gan nifer uchel o ddefnyddwyr ar sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol.

5.11 Mae'n cynnwys costau:

lletya a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo'r blaid
dylunio ac adeiladu'r wefan
cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd sydd wedi'i sefydlu i gael arian i'r blaid ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(2)**

5.12 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth lunio deunydd hysbysebu.

5.13 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â:

pharatoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio'r deunydd hysbysebu

lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ddosbarthu neu fel arall

5.14 Mae'n cynnwys costau:

papur neu unrhyw gyfrwng arall y caiff deunydd hysbysebu ei argraffu arno
arddangos hysbysebion mewn unrhyw leoliad yn gorfforol, er enghraifft ceblau clymu neu lud i godi posteri

5.15 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

offer llungopïo
offer argraffu

i'w defnyddio wrth argraffu deunydd hysbysebu.

5.16 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- safle swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

mewn cysylltiad â:

- pharatoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio'r deunydd hysbysebu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ddosbarthu neu fel arall

5.17 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r deunydd hysbysebu ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

# Atodlen 8, paragraff 1(3)

*Unsolicited material addressed to electors (whether addressed to them by name or intended for delivery to households within any particular area or areas).*

*Expenses in respect of such material include design costs and other costs in connection with preparing, producing or distributing such material (including the cost of postage).*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau sy'n gysylltiedig â chael gwybodaeth a thargedu neu adnabod pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data**

6.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, cael, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data manylion cyswllt
- unrhyw wybodaeth, ym mha bynnag fodd

a ddefnyddir i hwyluso'r gwaith o anfon deunydd na ofynnwyd amdano at bleidleiswyr.

6.2 Er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost.

6.3 Mae'n cynnwys cost defnyddio, cael neu ddatblygu setiau data, gan gynnwys dadansoddeg data i dargedu pleidleiswyr drwy ba bynnag fodd, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu eraill sy'n adnabod grwpiau o bleidleiswyr, ym mha bynnag fodd.

6.4 Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a delir i ddadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol i hwyluso'r gwaith o dargedu pleidleiswyr ar draws ardaloedd etholiadol a chost modelu gan unrhyw asiantaeth yn seiliedig ar y gwaith dadansoddi hwnnw.

6.5 Mae'n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i adnabod pleidleiswyr sy'n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

6.6 Pan geir gwybodaeth neu fynediad at wybodaeth gan drydydd parti, mae cost fasnachol cael y wybodaeth honno gan y trydydd parti wedi'i chynnwys.

**Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi, llunio neu ddosbarthu deunydd na ofynnwyd amdano i bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol**

6.7 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau

offer

a ddefnyddir:

i baratoi, llunio neu hwyluso’r gwaith o lunio deunydd na ofynnwyd amdano
i ledaenu, drwy ddosbarthu neu fel arall, y deunydd na ofynnwyd amdano, gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i ymdrech i gynyddu amlygrwydd deunydd mewn unrhyw fodd

6.8 Mae’n cynnwys y gost o ddosbarthu deunydd mewn unrhyw fodd gan gynnwys dull electronig neu ddosbarthu deunydd copi caled yn gorfforol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system ar gyfer anfon e-byst.

6.9 Mae’n cynnwys cost defnyddio, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy’n hyrwyddo neu’n cynyddu amlygrwydd deunydd na ofynnwyd amdano ar unrhyw sianel neu lwyfan.

6.10 Er enghraifft, os bydd plaid yn talu datblygwr i greu ap sy’n hwyluso’r gwaith o dargedu ei deunydd ar sianel cyfryngau cymdeithasol.

6.11 Mae’n cynnwys cost goruchwylio a chynnal yr holl gyfryngau cymdeithasol, digidol neu fathau eraill o ddosbarthu deunydd na ofynnwyd amdano. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o gynnal yr holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys os cânt eu cynnal gan endid/unigolyn arall.

**Costau eraill sydd wedi’u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(3)**

6.12 Mae’n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth lunio deunydd na ofynnwyd amdano.

6.13 Mae’n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall ar gyfer argraffu deunydd na ofynnwyd amdano.

6.14 Mae’n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â:

pharatoi, llunio neu hwyluso’r gwaith o lunio’r deunydd na ofynnwyd amdano
lledaenu’r deunydd na ofynnwyd amdano drwy ei ddosbarthu neu fel arall

6.15 Mae’n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

offer llungopïo
offer argraffu

i’w defnyddio wrth argraffu deunydd na ofynnwyd amdano.

6.16 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

safle swyddfa
ardrethi busnes
trydan
rhentu ffôn a mynediad i’r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â'r gwaith o baratoi, llunio, lledaenu a dosbarthu deunydd na ofynnwyd amdano.

6.17 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd na ofynnwyd amdano ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 8, paragraff 1(3)

6.18 Nid yw'n cynnwys cost postio'r anerchiad etholiad am ddim fel yr amlinellir yn erthygl 67 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.

6.19 Nid yw'n cynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chasglu data fel y caniateir o dan unrhyw statud neu reoliad.

6.20 Er enghraifft, mae gan bleidiau gwleidyddol hawl i gopi o'r gofrestr etholiadol drwy reoliad 102 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

# Atodlen 8, paragraff 1(4)

*Any manifesto or other document setting out the party's policies.*

*Expenses in respect of such a document include design costs and other costs in connection with preparing or producing or distributing or otherwise disseminating any such document.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

7.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir:

- i baratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio unrhyw faniffesto neu ddogfen arall
- i ledaenu neu ddosbarthu'r maniffesto neu ddogfen arall, drwy unrhyw fodd

gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i ymdrech i gynyddu amlygrwydd cynnwys mewn unrhyw fodd.

7.2 Er enghraifft, prynu safle amlycach ar dudalen peiriant chwilio.

7.3 Mae'n cynnwys y gost o sicrhau bod y maniffesto neu ddogfen arall ar gael ar ffurf electronig neu gopi caled a phob dull o'i ddosbarthu.

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(4)**

7.4 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth lunio maniffesto neu ddogfen arall.

7.5 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall ar gyfer argraffu maniffesto neu ddogfen arall.

7.6 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â:

- pharatoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio'r maniffesto neu ddogfen arall
- lledaenu'r maniffesto neu ddogfen arall drwy ei ddosbarthu neu fel arall

7.7 Mae'n cynnwys cost prynu, neu logi:

- offer llungopïo

- offer argraffu

i'w ddefnyddio i argraffu'r maniffesto neu ddogfen arall.

7.8 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- safle swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig ag unrhyw gostau mewnol ar gyfer dylunio'r maniffesto neu ddogfen arall ac ar gyfer ei lunio a'i ddosbarthu.

7.9 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r maniffesto neu ddogfen arall ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

# Atodlen 8, paragraff 1(5)

*Market research or canvassing conducted for the purpose of ascertaining polling intentions.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

8.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir:

i baratoi, llunio neu hwyluso gwaith canfasio neu ymchwil y farchnad
i gynnal neu gydlynu gwaith canfasio neu ymchwil y farchnad
i gofnodi neu ddadansoddi, neu ddefnyddio mewn ffordd arall, ganlyniadau unrhyw weithgarwch ymchwil y farchnad neu ganfasio

8.2 Er enghraifft, cost defnyddio banciau ffôn i gysylltu â phleidleiswyr, gan gynnwys datblygu sgriptiau i'w defnyddio gan gyflogeion y banc ffôn sydd wedi'u dylunio i ddylanwadu ar bleidleiswyr.

**Costau casglu neu gynnal data**

8.3 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, prynu, datblygu a chynnal:

meddalwedd TG neu gronfeydd data manylion cyswllt
setiau data, gan gynnwys defnydd o ddadansoddeg data

i hwyluso neu i gynnal ymchwil y farchnad neu ganfasio.

8.4 Er enghraifft, mae'n cynnwys y gost o gynnal gwaith gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddi'r canlyniadau i ddadansoddi bwriad pleidleiswyr. Mae'n cynnwys costau a ysgwyddir cyn y cyfnod a reoleiddir pan ddefnyddir y data wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(5)**

8.5 Mae'n cynnwys cost prynu unrhyw offer a defnyddio unrhyw offer sydd ei angen:

i baratoi, llunio neu hwyluso gwaith canfasio neu ymchwil y farchnad
i gynnal neu gydlynu gwaith canfasio neu ymchwil y farchnad

i gofnodi neu ddadansoddi, neu ddefnyddio mewn ffordd arall, ganlyniadau unrhyw weithgarwch ymchwil y farchnad neu ganfasio

8.6 Er enghraifft:

- gliniaduron neu lechi os cânt eu defnyddio ar gyfer gwaith canfasio
- ffonau symudol os cânt eu defnyddio gan arweinydd/cydlynydd y canfasio

pan fo'r offer hwnnw a/neu gostau cysylltiedig yn cael eu talu neu eu had-dalu gan y blaid neu gan drydydd parti.

8.7 Mae'n cynnwys cost cyfran berthnasol o:

- safle swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig ag ymchwil y farchnad neu ganfasio.

8.8 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r gwaith ymchwil y farchnad neu ganfasio ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

# Atodlen 8, paragraff 1(6)

*The provision of any services or facilities in connection with press conferences or other dealings with the media.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau**

9.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir i baratoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau.

9.2 Mae'n cynnwys cost tanysgrifiadau neu feddalwedd cyfryngau neu'r wasg arbenigol.

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(6)**

9.3 Mae'n cynnwys cost unrhyw ffi hawliau neu drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth baratoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau.

9.4 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â pharatoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau.

9.5 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

safle swyddfa
ardrethi busnes
trydan
rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r cyfryngau, fel cydlynu cynadleddau i'r wasg neu weithgarwch cyfryngau, neu ddrafftio datganiadau i'r wasg, neu ymwneud eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau, gan gynnwys pan fo gan y blaid gyfleusterau cynadledda i'r wasg yn ei fangre eisoes.

9.6 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â chynadleddau i'r wasg ac unrhyw weithgarwch arall â'r cyfryngau ar gyfer y blaid, pan fo'r blaid yn talu neu'n ad-dalu am hynny.

# Atodlen 8, paragraff 1(7)

*Transport (by any means) of persons to any place or places with a view to obtaining publicity in connection with an election campaign.*

*Expenses in respect of the transport of such persons include the costs of hiring a particular means of transport for the whole or part of the period during which the election campaign is being conducted.*

## Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr**

10.1 Mae’n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- aelodau’r blaid, gan gynnwys aelodau staff
- ymgyrchwyr eraill

o amgylch yr ardal etholiadol, neu i’r ardal etholiadol ac oddi yno, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant, gan gynnwys unrhyw ffi archebu
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynwyd neu gostau gwefru cerbydau trydan ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

pan fyddant yn ymgyrchu ar ran y blaid.

10.2 Mae’n cynnwys cost cludiant y telir amdano gan unrhyw unigolyn, plaid wleidyddol neu drydydd parti arall sy’n cael ei dalu neu ei ad-dalu naill ai gan y blaid wleidyddol neu gan drydydd parti, lle’r oedd yr unigolion a gludir yn ymgyrchu neu’n ymgymryd â gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r ymgyrch ar ran y blaid.

**Costau eraill sydd wedi’u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(7)**

10.3 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy’n arddangos deunydd sy’n hyrwyddo’r blaid, gan gynnwys unrhyw gost sy’n gysylltiedig â:

- dylunio a gosod y dyluniad ar y cerbyd neu’r math o gludiant.
- teithio rhwng ardaloedd etholiadol
- teithio o amgylch ardal etholiadol
- ffioedd parcio pan ddefnyddir cerbyd i arddangos deunydd

10.4 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- safle swyddfa
- ardrethi busnes

- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i’r rhyngrwyd

pan fo’r rhain yn gysylltiedig â’r gwaith o gynllunio, archebu neu ddefnyddio cludiant o unrhyw fath, neu pan fo cerbyd neu fath o gludiant yn cael ei baratoi i’w ddefnyddio mewn ardaloedd etholiadol. Er enghraifft, cost dylunio a gosod y dyluniad sy’n hyrwyddo’r blaid ar ochr bws.

10.5 Mae’n cynnwys yr holl gostau cludiant sy’n gysylltiedig â materion gwariant eraill. Er enghraifft, cludo rhywun i rali.

# Atodlen 8, paragraff 1(8)

*Rallies and other events, including public meetings (but not annual or other party conferences) organised so as to obtain publicity in connection with an election campaign or for other purposes connected with an election campaign.*

*Expenses in respect of such events include costs incurred in connection with the attendance of persons at such events, the hire of premises for the purposes of such events or the provision of goods, services or facilities at them.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

11.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi unrhyw:

asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
mangreoedd neu gyfleusterau
offer

a ddefnyddir:

i hyrwyddo rali neu ddigwyddiad arall
i gynnal rali neu ddigwyddiad arall i hyrwyddo'r blaid
i ffrydio neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall yn fyw mewn unrhyw fodd

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 8, paragraff 1(8)**

11.2 Mae'n cynnwys cost hyrwyddo neu hysbysebu'r digwyddiad, mewn unrhyw fodd.

11.3 Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei gynnal drwy gysylltiad o unrhyw fath neu sy'n cael ei ffrydio'n fyw neu ei ddarlledu, pan fo'r digwyddiad hwnnw ar agor i'w wylio gan ddefnyddwyr sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol neu drwy ddulliau eraill.

11.4 Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.

11.5 Mae'n cynnwys cost prynu unrhyw offer mewn cysylltiad â'r canlynol:

cynnal cyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo'r blaid
ffrydio neu ddarlledu cyfarfod cyhoeddus yn fyw mewn unrhyw fodd

11.6 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

safle swyddfa

ardrethi busnes
trydan
rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â:

hyrwyddo rali neu ddigwyddiad arall
cynnal rali neu ddigwyddiad arall i hyrwyddo'r blaid
ffrydio neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall yn fyw mewn unrhyw fodd

11.7 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â:

hyrwyddo rali neu ddigwyddiad arall
cynnal rali neu ddigwyddiad i hyrwyddo'r blaid
ffrydio neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall yn fyw mewn unrhyw fodd